Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

1 Victoria Street
London SW1H 0ET

T +44 (0) 20 7215 5000
E beiseip@beis.gov.ukt

www.beis.gov.uk

Mr Chris Jackson
Uwch-reolwr Prosiectau Datblygu
Renewable Energy Systems Limited
Cedar House
Greenwood Close
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd CF23 8RD

Our ref
Your ref 01592-1485332

24 Medi 2020

Annwyl Mr Jackson

**Ailbenderfynu Fferm Wynt ar y Tir yn Llanbrynmair – Cais am Ragor o Wybodaeth yn sgil Tynnu Cais Fferm Wynt ar y Tir yng Ngharnedd Wen yn ôl**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 2 Medi 2020 mewn ymateb i'n cais ninnau dyddiedig 25 Awst 2020 i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch a yw tynnu'r cais am fferm wynt ar y tir yng Ngharnedd Wen yn ôl wedi arwain at unrhyw newidiadau yn eich prosiect chi fel y gwnaed cais amdano'n flaenorol, yn benodol megis y cynnig i rannu llwybr Llwythi Unigol Annormal gyda Charnedd Wen.

Roedd eich llythyr dyddiedig 2 Medi 2020 yn gwahodd yr Ysgrifennydd Gwladol i ystyried ailbenderfynu ar gais Fferm Wynt Llanbrynmair naill ai fel y'i cyflwynwyd, neu fel arall heb lwybr wedi'i warantu ar gyfer Llwythi Unigol Annormal. Ar ôl ystyried eich ymateb, nid yw'n glir i'r Ysgrifennydd Gwladol a ydych wedi nodi dros dro unrhyw lwybrau amgen i Lwythi Unigol Annormal ers i gynllun Carnedd Wen gael ei dynnu'n ôl, neu a oes unrhyw lwybrau o'r fath yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Allech chi gadarnhau'r sefyllfa o ran unrhyw waith sydd wedi'i wneud gennych hyd yn hyn ar unrhyw lwybrau posibl i Lwythi Unigol Annormal i roi mynediad i safle Llanbrynmair i Lwythi Unigol Annormal.

Gofynnir ichi ymateb i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn 9 Hydref 2020. Mae'r cais hwn yn cael ei wneud heb ragfarnu penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer fferm wynt ar y tir yn Llanbrynmair ai peidio, ac nid oes dim yn y llythyr hwn i'w gymryd fel pe bai'n awgrymu beth allai'r penderfyniad hwnnw fod na pha gasgliadau terfynol y gall yr Ysgrifennydd Gwladol eu cyrraedd ac erbyn pa bryd.

Yn gywir,

**James Dawkins**
Rheolwr Achosion Cynllunio